Gwasanaeth cynghori newydd i bobl Cymru



cyngor ar bopeth citizens advice

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

Trosolwg

Mae Cyngor ar Bopeth wedi lansio gwasanaeth cynghori newydd ledled Cymru:

- Rhaglen newydd wedi'i hariannu'n genedlaethol yw Advicelink Cymru sy'n darparu cyngor yng Nghymru ers 1 Ionawr 2020.
- Mae'r cyllid wedi'i dargedu ar gyfer cyrraedd y bobl sydd fwyaf angen cyngor, neu rai fydd fel rheol ddim yn gofyn am gyngor.
- Mae'r arian yn ganlyniad i benderfyniad Llywodraeth Cymru i newid sut mae nhw'n comisiynu gwasanaethau cynghori ar draws Cymru.
- Mae'n disodli 4 gwasanaeth cynghori a ariennir gan Lywodraeth Cymru (dim cyllid newydd).
- Dyfarnwyd £8.1 miliwn i Cyngor ar Bopeth gan 'Gronfa Gynghori Sengl' Llywodraeth Cymru er mwyn arwain dull partneriaeth.
- Rheolir y gwasanaeth gan Cyngor ar Bopeth Cymru. Rhoddir cyllid i swyddfeydd Cyngor ar Bopeth lleol ac i ystod o bartneriaid lleol a chenedlaethol, i ddarparu'r gwasanaethau.

Nodweddion y gwasanaeth

Mae Advicelink Cymru yn fodel ariannu a darparu cwbl newydd ar gyfer gwasanaethau ledled Cymru:

- Dwyieithog ac aml-sianel dros y ffôn, ar-lein ac wyneb yn wyneb.
- Estyn allan i gleientiaid yn rhagweithiol trwy bartneriaid, i gael ymyriadau cyngor i'r rhai sydd eu hangen fwyaf cyn iddynt fod mewn argyfwng.
- Gweithio'n ddi-dor fel bod taith y cleient mor syml â phosibl.
- Gwasanaethau rhanbarthol gyda chysondeb cenedlaethol.
- Cyngor â sicrwydd ansawdd gyda chefnogaeth gofleidiol i gleientiaid gan bartneriaid. Cefnogaeth ymarferol, emosiynol, clinigol a chymdeithasol.

Ein gwasanaethau

Gwasanaeth cenedlaethol o bell ledled Cymru - cyngor dros y ffôn ac ar we-sgwrs, yn Gymraeg a Saesneg

Gwasanaethau cyffredinol ac arbenigol sy'n cynghori ar fudd-daliadau, dyledion a thai ar draws rhwydwaith Cyngor ar Bopeth

Gwasanaeth ffôn arbenigol ar gyflogaeth a gwahaniaethu

Sut mae'n cael ei darparu

I ddarparu'r rhaglen hon, mae Cyngor ar Bopeth wedi dod ynghyd ag ystod eang o bartneriaid sydd ag arbenigedd mewn ymgysylltu â grwpiau a chymunedau penodol ledled Cymru.

Dysgwch ragor am y gwasanaeth a'n partneriaid – **www.citizensadvice.org.uk/about-us/how-we-provide-advice/advice-partnerships/advicelink-cymru.**

Sut mae hyn yn gwella'r modd y mae pobl Cymru yn cael gafael ar gyngor:

- **Ansawdd** — Gwybodaeth a chyngor o ansawdd gwell
- **Cyrhaeddiad** — Yn cyrraedd pobl nad ydym wedi'u helpu o'r blaen
- **Hygyrchedd** — Yn fwy hyblyg ac yn haws i gael ail-fynediad at wasanaethau Cynghori
- **Rhagweithiol** — Cefnogi cleientiaid yn rhagweithiol i'w helpu i adeiladu eu sgiliau, gwybodaeth a hyder fel y gallant ddatrys eu problemau

Beth mae hyn yn ei olygu i bobl a phartneriaid

- Gwell ymwybyddiaeth o effaith gadarnhaol cyngor ar fudd-daliadau, dyled, cyflogaeth, tai, gwahaniaethu a mewnfudo
- Llwybrau atgyfeirio gwell at gyngor a gwybodaeth o ansawdd da
- Gwell cyd-ddealltwriaeth o'r modd mae gwasanaethau cynghori a chefnogi eraill yn cyd-fynd â'i gilydd
- Rhagor o wasanaethau cynghori gwybodus sy'n targedu
- Gwell profiad i'r bobl mae'r partneriaid yn eu cefnogi
- Posibiliadau ar gyfer gweithio ar y cyd yn y dyfodol, gan gysylltu â'r Rhwydweithiau Cynghori Rhanbarthol newydd

Mae Advicelink Cymru yn wasanaeth newydd yng Nghymru sy'n helpu pobl i gael y cyngor cywir ar yr adeg gywir.

Mae'n targedu'r rhai sydd fwyaf mewn angen gan roi cyngor hygyrch, diduedd o ansawdd da. Mae'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu'n bersonol, dros y ffôn neu ar-lein gan y rhwydwaith mwyaf o bartneriaid cynghori yng Nghymru.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch y gwasanaeth, e-bostiwch: **advicelinkcymru@citizensadvice.org.uk**

Gall pobl Cymru gysylltu â'r gwasanaeth trwy ein rhif ffôn cyfredol:
0800 702 2020

Relay UK - os na allwch glywed neu siarad ar y ffôn, gallwch deipio'r hyn rydych chi am ei ddweud:
18001 yna **0800 144 8884**

© Cyngor ar Bopeth Mawrth 2020

Mae'r gwasanaeth a'r deunydd hwn yn bosibl diolch i arian gan Lywodraeth Cymru. Nid yw'r safbwyntiau a fynegir yma o reidrwydd yn adlewyrchu barn Llywodraeth Cymru.

Cyngor ar Bopeth yw enw gweithredol Cymdeithas Genedlaethol y Canolfannau Cyngor Ar Bopeth. Rhif cofrestru'r elusen 279057.